

## Rôl a gwerth gwaith ieuenctid mewn agendâu cyfredol yng Nghymru ac agendâu sy'n dod i'r amlwg, Hydref 2015

### Rhagymadrodd

Mae gwaith ieuenctid, gyda'i fethodoleg, ei egwyddorion a'i arfer proffesiynol unigryw fel y'u diffinnir gan *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion* yn cyfrannu'n allweddol ac yn bwysig at ddatblygiad cynaliadwy Cymru a llesiant ei chenedlaethau yn y dyfodol. Gan hynny dylai fod yn ganolog i ddarpariaeth gwasanaethau â phwyslais, cefnogaeth ac adnoddau priodol.

Mewn amgylchedd cymhleth ac anodd, mae gan bobl ifanc hawl i ddisgwyl cyfleoedd gwasanaeth ieuenctid ansawdd uchel, sy'n bwrpasol ac yn arbenigol, â mynediad agored, sy'n cael eu darparu gan weithwyr ieuenctid sydd wedi hyfforddi'n drylwyr ac sy'n gymwys yn broffesiynol. Mae gwaith ieuenctid yn cael ei ddarparu drwy amrywiaeth o leoliadau a dulliau e.e. gwaith mewn canolfannau; allgymorth a gwaith stryd a symudol; waith gydag amrediad eang o aelodau'r gymuned; gwaith preswyl; darpariaeth bwrpasol ar gyfer grwpiau penodol mewn amrywiaeth o amgylcheddau sy'n cynnwys er enghraifft ysgolion, y system cyfiawnder ieuenctid ac amgylcheddau iechyd.

Fel y nodwyd yn *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion*, pum piler gwaith ieuenctid yng Nghymru yw ei fod yn:

- **Addysgol**
- **Mynegiannol**
- **Cyfranogol**
- **Cynhwysol**
- **Grymusol**

Diben allweddol gwaith ieuenctid yw:

*"...galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u lle mewn cymdeithas a gwireddu eu llawn botensial."*

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid.

Mae cyflawniadau pobl ifanc a'u cyfraniadau at gymdeithas fel pobl ifanc ac wrth iddynt bontio i fyd oedolion yn bwnc hollbresennol mewn trafodaethau gwleidyddol ac academaidd dros lawer o gyfryngau, y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, a'r sectorau gwirfoddol a phreifat fel ei gilydd.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae pendil y drafodaeth hon wedi gogwyddo tuag at gyflawniad addysgol ffurfiol ac, yn benodol, cyflawniad academaidd e.e. trothwy/gofynion TGAU graddau A\* i C, graddiadau cenedlaethol yn y tablau Asesiadau Rhyngwladol Cyflawniad Myfyrwyr (PISA) ac yn y blaen. O fewn y drafodaeth hon, mae'r sector gwaith ieuenctid hefyd wedi gweld ei rôl mewn sefydliadau addysgol ffurfiol (yn arbennig ysgolion) yn cael ei gwthio i'r blaen, gydag adolygiadau ffurfiol o rôl gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cael eu cynnal yng Nghymru (gan Lywodraeth Cymru yn 2015) ac yn Lloegr (gan yr NYA yn 2013).

### Y cyd-destun presennol

Yng Nghymru, mae gwaith ieuenctid wedi derbyn cydnabyddiaeth haeddiannol o'i rôl yn ddiweddar drwy'r polisi blaenllaw *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid*, lle roddir statws i weithwyr ieuenctid am eu sgiliau ymgysylltu, brocera a bod yn weithwyr arweiniol. Ochr yn ochr â hyn y mae'r "weledigaeth gymhellol, gyffrous ac uchelgeisiol am gwricwlwm newydd i Gymru" (y Gweinidog Addysg, Huw Lewis, Chwefror 2015), *Dyfodol Llwyddiannus*. Mae'r adolygiad hwn o gwricwlwm ysgolion, wedi ei ymchwilio a'i lunio gan yr Athro Graham Donaldson, wedi dod i ben, bu craffu ar yr argymhellion a bydd fformat newydd yn dod i'r amlwg yn y blynyddoedd nesaf fel "cwricwlwm sy'n addas i'r 21<sup>ain</sup> Ganrif". Wrth gasglu tystiolaeth, mae Donaldson yn cyfeirio at blant a phobl ifanc (a rhanddeiliaid eraill), gan alw am "fwy o ffocws ar gymwyseddau cymdeithasol cyffredinol" ac at orbwyslais ar hyn o bryd ar asesu, cymwysterau a rheoli perfformiad.

Mae llawer o "gymwyseddau cymdeithasol" yn cael eu dysgu drwy weld a gwneud, drwy brofi a methu yn ogystal â llwyddo - y gallu i ymdopi â methiant, i ymadfer ac i ddysgu o'r profiad (cydnerthedd). Mae gwaith ieuenctid, fel darpariaeth addysgol ategol, yn darparu nid yn unig gyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed adeiladu ac ailadeiladu agweddau ar eu bywydau, i adlewyrchu a gwerthuso, ond hefyd yn cynnig rhaglenni dysgu ynddynt eu hun gan ddefnyddio technegau gwahanol (ond cydategol) mewn amgylcheddau cefnogol sy'n cynnig dull amgen i bobl ifanc geisio cyflawni eu potensial llawn.

Wrth i **bobl ifanc dreulio rhyw 85% o'u horiau effro tu allan i addysg ffurfiol** (yr Athro Tim Brighouse *Education without failure*, Cylchgrawn Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau Digidol, Hydref 2008<sup>ii</sup>), mae'r gwasanaeth ieuenctid a gwaith ieuenctid yn cynnig cyfleoedd i bob person ifanc, beth bynnag eu cefndir, galluedd ac amgylchiadau, ddatblygu eu lles personol a chymdeithasol, i fanteisio ar addysg ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol ac i wella eu cyflogadwyedd a'u siawnsiau mewn bywyd. Pobl ifanc sy'n elwa ar berthnasau o ymddiriedaeth ag oedolion dibynadwy, grŵp cymheiriaid positif a'r cyfle i ddysgu o amrediad o gyfleoedd newydd ar yr un pryd â chanolbwyntio ar bobl, nid problemau, yw'r prosesau hanfodol wrth i bobl ifanc bontio o berson ifanc i oedolyn.

Mae cydnabyddiaeth eang bod cyflawniad addysgol ffurfiol yn cael ei hybu'n sylweddol pan fydd athrawon yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol a chymdeithasol ehangach e.e. llwyddiant rhaglenni Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol Dysgu (SEAL), sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc o bob gallu. Dywed astudiaeth ddiweddar gan Brifysgol Caerfaddon<sup>iii</sup> ar effaith addysg heb fod yn ffurfiol (2012, t.17) fod:

*“pobl ifanc ar lefelau uwch cymwysterau yn adrodd mwy o ddatblygiad sgiliau yn ystod eu cyfranogiad â chyrff ieuenctid” a bod “addysg heb fod yn ffurfiol a’i chydabyddiaeth yn gydran hanfodol wrth adeiladu cymdeithasau dysgu gydol oes...mae’r cydweddu sydd wedi cael ei nodi rhwng y sgiliau mae cyflogwyr yn eu mynnu a’r sawl sy’n cael eu hennill drwy addysg nad yw’n ffurfiol mewn cyrff ieuenctid yn cadarnhau’r effaith hon ar gyflogadwyedd pobl ifanc”.*

Mae’r CBI ac ACAS (2012)<sup>iv</sup> yn cyfeirio at dangyflawniad sgiliau cyflogadwyedd neu ‘sgiliau meddal’ (*“priodweddau personol neu nodweddion ymddygiadol, yn hytrach na sgiliau technegol neu gymwyseddau swydd”*) gan bobl ifanc sy’n mynd i mewn i fyd gwaith, sgiliau y mae gwaith ieuenctid yn eu meithrin ymhlith pobl ifanc ers mwy na chan mlynedd.

Gan hynny gall gwaith ieuenctid fod yr un mor berthnasol i rywun dawnus a thalentog ag i’r person ifanc ar ymylon addysg neu y bernir Nad yw mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET).

### **Rôl gwaith ieuenctid**

Cydnabyddir yn eang bod gan waith ieuenctid ran hanfodol i’w chwarae wrth feithrin gallu pobl ifanc i bontio’n llwyddiannus i fyd oedolion, wrth ddod yn gyfranwyr positif at eu cymunedau lleol a chydabod eu lle yn y gymuned fyd-eang a’u cyfraniad ati.

Ond fel proffesiwn sy’n mynnu cymwysterau gradd, er bod gan waith ieuenctid ei gyfres ei hun o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, fframwaith cymwysterau a statws cyfartal ag (er enghraifft) dysgu a gwaith cymdeithasol, mae diffyg dealltwriaeth o hyd o’r hyn mae’n ei wneud ac yn y blynyddoedd diwethaf mae wedi colli rhywfaint o dir yn nhermau cydnabyddiaeth o’i gyfraniad. Oherwydd ei berthynas lai ffurfiol (ond yr un mor rymus ei heffaith) â phobl ifanc, gellid dadlau ei fod hefyd yn fictim anfwriadol honiad Donaldson bod gorbwyslais ar asesu, cymwysterau a rheoli perfformiad.

Mae lle arbennig i ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy’n agored i niwed, gan gynnwys cyngor am feichiogrwydd merched yn eu harddegau, timau cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau camddefnydd cyffuriau ac alcohol a chymorth digartrefedd. Ond yn hanfodol i unrhyw ‘gynnig’ gwaith ieuenctid ‘yw ei fod yn hygyrch mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys cymunedau yn ogystal ag ysgolion. Mae gwasanaethau mynediad agored, gan gynnwys amrediad o weithgareddau hamdden, diwylliannol, chwaraeon a chyfoethogi, wedi eu seilio’n aml o amgylch canolfannau ieuenctid, yn cynnig **amgylchedd di-stigma** ac yn aml nid oes modd gwahanu’r ddau dull o reidrwydd. Yn 2011, adroddodd Pwyllgor Dethol Addysg Westminster:

*Un peth am waith ieuenctid mynediad agored yw nad yw’n stigmateiddio. Nid yw pobl yn cael eu cyfeirio i weithiwr ieuenctid; maent yn cymryd rhan mewn darpariaeth gwaith ieuenctid ac mae eu hanghenion yn cael eu nodi ... Nid yw fel petaech chi’n mynd i rywle lle mae’r bechgyn drwg yn mynd. Os cymerwn hynny allan—bod y ddarpariaeth honno’n mynd i raddau helaeth—byddwn yn colli llwybr mynediad mawr i bobl ifanc gael gwasanaethau mwy arbenigol.*

Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i ddweud:

*Pan fydd arian cyhoeddus yn gyfyngedig, deallwn y gall blaenoriaeth gael ei rhoi i wasanaethau sy'n cefnogi'r mwyaf anfanteisiol. Ond mae ein tystiolaeth yn dangos y gall gwasanaethau mynediad agored fod mor effeithiol weithiau â rhai pwrpasol wrth gyrraedd y bobl ifanc hynny, y gall y ddau gyflawni'r un rolau i newid bywydau pobl ifanc, a bod pobl ifanc yn aml yn symud rhyngddynt. Felly, wrth benderfynu pa wasanaethau i'w comisiynu, rhaid i awdurdodau lleol gydnabod y gallai gwasanaeth mynediad agored fod yn fwy priodol nag un pwrpasol i wella rhai canlyniadau i bobl ifanc, neu efallai bod angen y ddau fath.*

Mae'r gwasanaeth ieuencid yn cyfrannu at ofynion niferus yn Rhaglen Lywodraethu bresennol Llywodraeth Cymru, lle bo gan y meysydd perthnasol effaith ar bobl ifanc. Yn 2016 bydd y *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant* (a dderbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ar 1 Mai, 2014) yn cael ei gweithredu gan osod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol a'i gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth ieuencid chwarae ei ran. Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*, 2015 hefyd yn mynnu ymateb oddi wrth weithwyr ieuencid a phobl ifanc i sicrhau bodloni ei huchelgeisiau o wneud Cymru'n wlad ffyniannus a chynaliadwy.

**Er bod pwysau ariannol cyson yn dal i effeithio ar allu'r sector, mae'r Gwasanaeth Ieuencid yng Nghymru wedi ymrwmo i bobl ifanc o hyd ac yn awyddus i barhau i chwarae rôl bositif yn eu haddysg a'u datblygiad cyffredinol. Mae gan y sector lawer iawn i'w gynnig i'r trafodaethau hyn a byddai'n croesawu bod yn rhan ohonynt.**

#### **Cyfraniad at flaenoriaethau/datblygiadau Llywodraeth Cymru**

Mae gwaith ieuencid, drwy ei berthynas unigryw â phobl ifanc, yn cyfrannu'n fawr at ddatblygiad cynaliadwy Cymru a llesiant ei chenedlaethau yn y dyfodol ond mae ganddo'r potensial i chwarae rôl ehangach byth.

Er enghraifft, mae Prifysgol Caerefrog, mewn ymchwil a gynhaliwyd ar ran y Comisiwn Archwilio yn 2013<sup>9</sup> yn cyfeirio at y


*"prosiectau cymorth ieuencid cymharol rad sy'n cynhyrchu arbedion mawr mewn cyllid cyhoeddus. Mae hyn yn awgrymu y bydd cwtogi rhaglenni o'r fath yn arwain at godiadau sylweddol iawn mewn gwariant cyhoeddus".*

Maent yn amcangyfrif mai cost gyfartalog am oes person ifanc nad yw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yw £104,300. Cafodd [cyfraniad gwaith ieuencid at y rhaglen lywodraethu](#) ei fapio gan y sector yn 2013 ac mae lled y meysydd polisi sy'n cael eu dylanwadu (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) yn helaeth. Gan gymryd i ystyriaeth y meysydd sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc, ni ddylai fod yn syndod ond, serh nynny, mae'n dangos yr effaith sydd gan y sector:

Thema/Gweithred Allweddol	Cyfrannu'n	
	Uniongyrchol	Anuniongyrchol
Twf a Chynladwyedd	√	
Gwasanaethau Cyhoeddus	√	
Addysg	√	
Gofal Iechyd yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	√	
Cefnogi Pobl	√	
Cartrefi Cymru		√
Cymunedau Mwy Diogel	√	
Cydraddoldeb	√	
Trechu Tlodi	√	
Cymunedau Gwledig	√	
Amgylchedd a Chynladwyedd		√
Diwylliant a Threftadaeth Cymru	√	

### Dyfodol Llwyddiannus - y cwricwlwm newydd

Cafodd yr Athro Graham Donaldson ei gomisiynu gan y Gweinidog Addysg yn 2014 i gynnal adolygiad o gwricwlwm ysgolion. Yn sgîl ymgynghori'n eang, adroddodd Donaldson ei waith yn Chwefror 2015 ac wedi hynny cafodd pob un o'r 68 argymhelliad eu derbyn gan y Gweinidog yn Awst 2015. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r cwricwlwm newydd, a fydd yn seiliedig ar 6 maes dysgu a phrofiad:



Gall gwaith ieuenctid wneud cyfraniad at y mwyafrif o'r meysydd dysgu a phrofiad hyn, yn arbennig (ond nid yn unig) *Iechyd a Llesiant* drwy:

- **Gwybodaeth** – Mae cyngor a chymorth da yn hanfodol i ddatblygiad cyffredinol pobl ifanc a gall lywio patrymau ymddygiad am weddill eu bywydau. Mae gwaith ieuenctid da yn rhoi nid yn unig gwybodaeth a chyngor i berson ifanc ar amrywiol faterion sy'n berthnasol i'w bywydau ond hefyd yn rhoi i'r unigolyn y sgiliau a'r offer sy'n gwneud penderfyniadau gwybodus am y rhain.
- **Addysg rhyw a pherthnasau, Camddefnydd sylweddau ac addysg am ystyriaethau eraill am faterion** – Mae pobl ifanc yn wynebu llawer o faterion cymhleth a dylai mynediad i addysg briodol am ryw a pherthnasau a gwybodaeth arall ar ystyriaethau, fod ar gael iddynt pan fydd arnynt ei hangen fwyaf. Nid yw hyn bob amser yn ystod 'oriau ysgol'

ac nid yw pobl ifanc bob amser yn dymuno manteisio ar gyngor o'r fath mewn lleoliadau ffurfiol, er y gall hyn fod yn wir am rai – dewis a hyblygrwydd sy'n bwysig.

- **Hamdden/Gweithgareddau** - fel rhan o ddull iach o fyw yn gyffredinol, mae gwaith ieuencid yn cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau chwaraeon, dan do ac awyr agored, yn ogystal â gweithgareddau celfyddydau a diwylliannol a phrofiadau, gan gynnwys cyfnewidiadau cenedlaethol a rhyngwladol a chynllun Gwobr Dug Caeredin.

**Cyflwynodd gwasanaethau ieuencid awdurdodau lleol fwy na 1,000 o brosiectau Celfyddydau a Drama yn ystod 2013-14, gan gyfrannu ar y Celfyddydau Mynegiannol; mwy na 600 o brosiectau dinasyddiaeth; mwy na 400 o brosiectau cyfranogiad/fforwm ieuencid/cyngor ieuencid; mwy na 400 o brosiectau am Ddiwylliant Cymru; mwy na 2,000 o brosiectau am chwaraeon a gweithgarwch corfforol a mwy na 100 o gyfnewidiadau Ewropeaidd a Rhyngwladol; mwy na 200 o brosiectau a oedd yn cynnwys technoleg gwybodaeth <http://gov.wales/statistics-and-research/youth-services/?lang=en>**

Bydd angen **gweithlu ansawdd uchel** i gyflawni *Dyfodol Llwyddiannus*, felly mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu *Adolygiad Furlong*, sydd wedi rhoi argymhellion ar gyfer gwella addysg gychwynol athrawon a'r *Fargen Newydd i'r Gweithlu Addysg* i gefnogi a chodi statws y gweithlu addysg yng Nghymru. O ystyried y gydnabyddiaeth i waith ieuencid fel darpariaeth addysg a bod y proffesiwn yn dod o fewn cwmpas *Cyngor y Gweithlu Addysg* newydd, y corff rheoleiddio newydd ar gyfer ymarferwyr addysgol yng Nghymru, o 2017 ymlaen, syndod efallai yw nad yw'r sector hefyd yn dod o fewn cwmpas Furlong na'r Fargen Newydd. Er bod gan ein hysgolion, colegau a sefydliadau addysgol ffurfiol eraill ran bwysig i'w chwarae, cydnabyddir na allant wneud hynny ar eu pen eu hun – i ddyfynnu'r dywediad Affricanaidd, "It takes a village to raise a child".

Mae'r sector gwaith ieuencid yn parhau i esblygu a gwella ansawdd ei weithlu drwy awdurdodau lleol a chyrrff sector gwirfoddol fel cyflogwyr a thrwy [Gyngor Safonau Hyfforddiant Addysg Cymru](#) fel y corff sy'n cymeradwyo rhaglenni hyfforddiant ond ni fu unrhyw drafodaethau cenedlaethol eto am ddatblygu ymagweddau cydweithredol rhwng ysgolion a gwaith ieuencid. Gan fod y berthynas rhwng gweithiwr ieuencid a pherson ifanc yn wirfoddol ac yn cael ei harwain gan y person ifanc, bydd dewisiadau o ran ymgysylltu a phwyntiau mynediad yn amrywio ond, gydag ond hyn a hyn o hyblygrwydd o fewn addysg ffurfiol, mae'n ymddangos bod cwmpas i wella gallu gweithwyr ieuencid ac athrawon ond yn arbennig gweithwyr, nad oes ganddynt efallai ddigon o amser i ganolbwyntio ar faterion fel hunan-efeithlonrwydd a chydnerthedd.

Dywed Furlong:

*Os yw'r proffesiwn addysgu ei hun am wneud ei briod gyfraniad at godi safonau yn ein hysgolion yn y modd sydd wedi'i nodi yn Adolygiad Donaldson (2015), yna yr hyn y mae ei angen yw math o addysg gychwynol athrawon sy'n eang ac nid yn gyfyngedig, sy'n rhoi i'r athrawon eu hunain y sgiliau, yr wybodaeth a'r awydd i arwain y newidiadau angenrheidiol. Ar hyn o bryd, nid yw'r math hwnnw o addysg gychwynol athrawon ar gael yng Nghymru.*

Efallai bod hyn yn cynnig cyfle i waith ieuenctid ac addysgu ddeall yn well a dysgu o ddulliau gwahanol ond cyflenwol ei gilydd?

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Nod *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gynaliadwy. Mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu at y 7 nod yn y Ddeddf felly:

Nod	Enghreifftiau o gyfraniad
Cymru ffyniannus	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Pobl ifanc yn gallu ysgwyddo rôl arwain neu gefnogi trwy gynlluniau arweinyddiaeth iau ac addysg gymheiriaid</li> <li>➤ Datblygu setiau sgiliau cyflogaeth ehangach e.e. cyfathrebu, gwaith tîm, sgiliau rhyngpersonol, sgiliau arwain</li> <li>➤ Pobl ifanc yn cael eu hannog i chwarae rôl positif yn eu cymunedau</li> <li>➤ Cynnig cyfleoedd i gymryd rhan, beth bynnag eu cefndir</li> <li>➤ Ehangu gorwelion a chodi uchelgeisiau drwy ddarparu cyfleoedd newydd a heriol</li> <li>➤ Meithrin sgiliau cyflogadwyedd sy'n annog cynnydd pobl ifanc</li> <li>➤ Gwaith ieuenctid mewn ysgolion - hybu ymgysylltiad pobl ifanc</li> <li>➤ Cysylltiadau â Chynlluniau Gweithredu Cymunedau'n Gyntaf</li> </ul>
Cymru gydnherth	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Hunan-barch, prosiectau gwrth-fwlio</li> <li>➤ Gweithgareddau gwella hyder gyda phobl ifanc</li> </ul>
Cymru iachach	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Rhaglenni bwyta'n iach</li> <li>➤ Addysg rhyw a pherthnasau sy'n hyblyg o ran amser a lleoliad</li> <li>➤ Rhaglenni camddefnydd sylweddau</li> <li>➤ Gwybodaeth a chyingor cyfredol o ansawdd dda</li> </ul>
Cymru fwy cyfartal	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth a herio gormes yw un o swyddogaethau canolog gwaith ieuenctid</li> <li>➤ Gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau</li> <li>➤ Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o faterion lesbiaidd, hoyw, deuryweddol a thrawsryweddol</li> <li>➤ Ymwybyddiaeth o anabledd</li> <li>➤ Trechu a herio troseddau casineb/eithafiaeth</li> <li>➤ Arferion gwrth-wahaniaethol</li> <li>➤ Magu hunan-barch a chydnerthedd</li> <li>➤ Datblygu cynhwysiant cymdeithasol</li> </ul>
Cymru llawn cymunedau cydlynus	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Dysgu sgiliau "meddal" a sgiliau hanfodol mae eu hangen i gynnal cymunedau</li> <li>➤ Ennill dealltwriaeth o gymorth cilyddol ac anghenion pobl eraill</li> <li>➤ Cymryd rhan mewn gweithgareddau positif</li> <li>➤ Prosiectau gwella'r amgylchedd</li> </ul>

	➤ Gwobr Dug Caeredin, dinasyddiaeth/gwirfoddoli
Cymru o ddiwylliant egnïol a Chymraeg ffyniannus	➤ Eisteddfodau, gweithdai theatr, cyfnewidfeydd ieuencid ➤ Digwyddiadau a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg, cynhyrchu llenyddiaeth Gymraeg ➤ Cyflwyno cyfleoedd gwaith ieuencid a hyfforddiant /dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang	➤ Cyfnewidiadau ieuencid ➤ Prosiectau dinasyddiaeth fyd-eang ➤ Rhaglenni ymwybyddiaeth ddiwylliannol a hunaniaeth ➤ Rhaglenni amgylcheddol

### Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant

Mae gwasanaethau ieuencid yn gweithredu'n ddarpariaeth ataliol bwysig, sydd yn aml yn **cadw person ifanc rhag cyrraedd pwynt critigol** pan fydd angen ymyriadau pellach e.e. gwasanaethau cymdeithasol, tai, CAMHS, yr heddlu ac ati. Drwy weithio'n agos gyda pherson ifanc, eu helpu i lywio eu ffordd drwy eu hanawsterau a'u profiadau, yn aml mae modd osgoi'r angen am ymyriadau mwy byrdymor a chostus.

Fodd bynnag, mae llawer o bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau ieuencid eisoes wedi ymddieithrio rhag gwasanaethau prif ffrwd yn aml yn agored i niwed. Mae rhai yng ngofal gwasanaethau cymdeithasol ar y pryd, efallai bod angen i eraill fod ond nid oes ganddynt y cymhelliant neu'r gallu i geisio cymorth. Yn ogystal â helpu pobl ifanc i ddod yn hunan-gynhwysol ac yn rhyngddibynnol, **mae gweithwyr ieuencid hefyd yn eiriolwyr cymwys**, gan weithredu er lles gorau'r person ifanc ar yr un pryd â chynorthwyo datblygiad sgiliau'r unigolyn hwnnw.

Mae gan wasanaethau ieuencid hanes cryf o weithio'n gydweithredol gyda phartneriaid niferus, o'r sectorau statudol a gwirfoddol fel ei gilydd, ac yn aml mae galw mawr am sgiliau gwaith ieuencid, yn arbennig sgiliau ymgysylltu a brocera gwasanaethau. O'r pwys mwyaf hefyd, i unrhyw weithiwr ieuencid a gwasanaeth ieuencid da, yw sicrhau bod pobl ifanc yn ddiogel - mae gan wasanaethau ieuencid pob awdurdod lleol gysylltiadau agos â'u Byrddau Diogelu Lleol ac maent yn awyddus i sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn parhau o dan ofynion y Ddeddf newydd.

Ymhlith y meysydd eraill lle mae gweithwyr ieuencid yn fedrus ac yn brofiadol ac yn gallu cyfrannu at alwadau *Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant* mae:

- Cyfranogiad – defnyddwyr gwasanaethau'n dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau e.e. drwy Gyngorau Ieuencid a Fforymau Ieuencid
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth cywir a chyfredol, yn unol â *Safonau Gwybodaeth Ieuencid Cymru*<sup>vi</sup> [?](#)
- Gwaith gyda gofalwyr ifanc
- Gwaith gyda rhieni ifanc

### Casgliad



Mae gwaith ieuencid yn cyfrannu'n allweddol at ymdrechion cyson Cymru i sicrhau bod ei phoblogaeth iau yn iach, yn hapus ac yn ffyniannus drwy'r perthnasau grymus sy'n cael eu meithrin ar sylfaen wirfoddol a'u gyrru gan anghenion y person ifanc.

Er bod cydnabyddiaeth bod y gwasanaeth ieuencid yn gwneud gwaith rhagorol wrth ymgysylltu â phobl ifanc sydd wedi eu dadrithio, a'u hybu, **mae ei rôl ehangach mewn cynnig gweithgareddau a rhaglenni i bob person ifanc yn hollbwysig wrth atal pobl ifanc rhag cyrraedd y sefyllfa hon.** Nid pob person ifanc a fydd angen neu eisiau manteisio ar gymorth gwaith ieuencid ond mae'n wir am lawer, a bydd y rheiny naill ai'n gwneud hynny'n gyson neu'n mynd a dod yn ôl eu hanghenion. Mae ar bobl ifanc o bob cefndir a gallu angen y gefnogaeth a'r datblygiad sgiliau sy'n cael eu cynnig gan y gwasanaeth ac, er bod ymyriadau pwrpasol yn parhau i gynyddu o ran amllder a'u ffocws, mae gwasanaethau mynediad agored yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod yr holl bobl ifanc sy'n ymwneud â gwaith ieuencid yn cyfrannu'n bositif at ein cymunedau ac y gall **pobl ifanc o bob cefndir a gallu ddysgu oddi wrth ei gilydd.**

Trwy gyfrwng gwaith partneriaeth da rhwng gwasanaethau ieuencid a chyrrff perthnasol, bydd gwelliannau mewn sgiliau personol a chymdeithasol yn parhau, fel y bydd gallu pobl ifanc i wneud synnwyr o'r byd maent yn byw ynddo a'r cyfraniad y gallant ei wneud. Bydd heriau ar hyd y daith hon ond, yn ôl comisiwn diweddar yr Asiantaeth Ieuencid Genedlaethol (NYA) i rôl gwaith ieuencid mewn addysg ffurfiol:

*“Dwu faes lle bernir bod gwaith ieuencid o fudd arbennig yw cyflwyno Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd ac Addysg Ryw a Pherthnasau...Ond mae yna nifer o rwystrau i'w goresgyn. Mae cyfathrebu'n thema sy'n codi tro ar ôl tro i'r sawl sy'n gweithio yn y sector ieuencid a'r sawl a gyflogir mewn addysg ffurfiol. Yn aml gall gweithwyr ieuencid ei chael yn anodd mynegi gwerth eu proffesiwn. Fodd bynnag, gall ysgolion fethu â chyfathrebu'n ddigonol hefyd sut maent hwythau yn dymuno gweithio gyda gweithwyr ieuencid i gefnogi eu myfyrwyr”<sup>vii</sup>*

Er bod ei set greiddiol o werthoedd yn sylfaen iddo, mae gan y gwasanaeth ieuencid hanes o fod yn hyblyg i anghenion pobl ifanc a thraddodiad o gydweithio'n llwyddiannus gyda phartneriaid niferus yn y sectorau gwirfoddol a statudol fel ei gilydd i wella canlyniadau i bobl ifanc.

---

<sup>i</sup> <http://www.wlga.gov.uk/publications-lifelong-learning-leisure-and-information/youth-work-in-wales-principles-and-purposes-january-2013/>

<sup>ii</sup> Pwyllgor Addysg Tŷ'r Cyffredin (2011) yn dyfynnu'r Athro Tim Brighouse. Education without failure, The RSA Digital Journal, Autumn 2008

<sup>iii</sup> [http://issuu.com/yomag/docs/reportnfe\\_print](http://issuu.com/yomag/docs/reportnfe_print)

<sup>iv</sup> <http://www.cbi.org.uk/campaigns/getting-the-uk-working/making-young-people-job-ready/>

<sup>v</sup> <http://www.york.ac.uk/spsw/research/neet/>

<sup>vi</sup> <http://www.promo-cymru.org/resources-2/national-standards-quality-assurance-framework>

<sup>vii</sup> <http://www.nya.org.uk/wp-content/uploads/2014/06/Commission-into-the-role-of-youth-work-in-formal-education.pdf>